



Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru Advocacy Support Cymru

Ein Cynnig Cymraeg

Our Welsh Offer



Contents

Darpariaeth Iaith Gymraeg	3
Cyfathrebu gydag ASC	3
Galwadau Ffôn	3
Gwefan	3
Gohebiaeth	4
Y Cyfryngau Cymdeithasol	4
Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb	4
Ein Sefydliad	4
Recriwtio	4
Deunyddiau Hyrwyddo	5
Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	5
Adroddiad	5

Darpariaeth Iaith Gymraeg

Rydym yn cydnabod y budd o ddaw o ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n bosibl, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Rydym, felly, yn annog defnydd o'r Gymraeg cyn amled ag y bo modd, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Yn y ddogfen hon rhoddir manylion o'r mesurau rydym wedi eu rhoi ar waith i sicrhau hyn; caiff y rhain eu diwedddaru'n rheolaidd i sicrhau bod y ddogfen yn parhau'n gywir ac yn cyd-fynd â'n darpariaeth Gymraeg.

Cyfathrebu gydag ASC

Galwadau Ffôn

Atebir pob galwad ffôn gan ddefnyddio cyfarchiad Cymraeg syml cyn y cyfarchiad Saesneg. Os yw'r galwr yn dymuno parhau yn y Gymraeg, mae gennym eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg all gymryd eu galwad. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, nodir manylion y galwr a chaiff y neges ei throsglwyddo i siaradwr Cymraeg, a fydd yn sicrhau bod yr alwad yn cael ei dychwelyd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Gwefan

Mae gwefan ASC ar gael yn Gymraeg neu Saesneg, ac mae cyfeiriad penodol ar gyfer y fersiwn Cymraeg llawn (www.ascymru.cymru). Mae dolennau i'r fersiwn Cymraeg hefyd ar gael ar dudalen hafan ein safle Saesneg, gan sicrhau y gellir cael mynediad rhwydd at y fersiwn Cymraeg naill ai trwy glicio ar y logo iaith Gwaith "Cymraeg", neu ar y ddolen Cymraeg ar frig y dudalen, yn achos person sy'n mynd i'n prif safle ac yn dymuno gweld y dudalen yn Gymraeg.

Yn ogystal, bydd tudalen flaen ein gwefan yn cynnwys dolennau i'r ddogfen hon, a fydd yn ddwyieithog; bydd fersiwn Cymraeg yn unig hefyd yn cael ei uwchlwytho i'n fersiwn Cymraeg o'r safle, gan sicrhau bod pob ymwelydd i'r dudalen yn ymwybodol o'n darpariaeth yn yr iaith Gymraeg.

Gohebiaeth

Caiff unrhyw ohebiaeth, yn cynnwys cwynion / canmoliaeth, a dderbyniwyd yn Gymraeg ei hateb yn Gymraeg; mae hyn yn cynnwys cyfathrebu dros y ffôn, neu trwy lythyr, neges destun neu'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ganfod dewis iaith person, a hynny ar bwynt yr atgyfeirio.

Ni chaiff unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na gohebiaeth Saesneg.

Mae gan bob gohebiaeth e-bost lofnod safonol sy'n sicrhau bod gwybodaeth megis Teitl Swydd, Ymwadiadau Cyfrinachedd a Manylion Cofrestru ASC ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym yn defnyddio platfformau cyfyngedig ar y Cyfryngau Cymdeithasol, ac yn cynnal presenoldeb ar y safleoedd dewisol hyn. Rydym yn croesawu unrhyw gyswllt drwy ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod pob postiad a gynllunnir o flaen llaw yn ddwyieithog.

Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

Mae pob un o'n cyflogeion Cymraeg eu hiaith yn gwisgo'r bathodyn iaith Gwaith "Cymraeg" i sicrhau eu bod yn amlwg fel siaradwyr Cymraeg heb fod angen i neb holi.

Mae ASC yn cadw cofrestr o sgiliau iaith Gymraeg ein cyflogeion, ac yn sicrhau ei bod yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Anogir pob cyflogai i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a datblygu eu sgiliau lle bynnag y bo modd.

Ein Sefydliad

Recriwtio

Yn ASC, rydym yn awyddus i gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn ein sefydliad, a denu siaradwyr Cymraeg i'r swyddi rydym yn eu hysbysebu. I'r diben hwn, rydym wedi ymrwmo i osod ein hysbysebion mewn lleoliadau sy'n fwy tebygol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg, yn ogystal ag yn y lleoliadau traddodiadol yn y cyfryngau Saesneg rydym wedi eu defnyddio yn y gorffennol. Bydd hyn yn cynnwys gwefannau megis Lleol.cymru, Golwg360 a Volunteering Wales # Cymraeg.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym adnoddau mewnol digonol i gynnal cyfweiliadau yn y Gymraeg; fodd bynnag, byddwn yn cyflogi cyfieithydd os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad. Pan estynnir gwahoddiad i ymgeiswyr fynychu cyfweiliad, gofynnir iddynt ym mha iaith y dymunant gael eu cyfweld er mwyn sicrhau bod eu dewis yn hysbys a bod modd ei hwyluso. Wrth i'n hadnoddau gynyddu, ein nod yw gweld y galw am gyfieithwyr yn lleihau, gyda'n hadnoddau mewnol yn cynyddu i alluogi proses cyfweld fwy llyfn.

Mae pecynnau cais am swydd, disgrifiadau swydd a manylebau person ar gael yn y Gymraeg, a chânt eu darparu ar gais

Deunyddiau Hyrwyddo

Mae'r rhan fwyaf o'n deunyddiau hyrwyddo, yn cynnwys deunyddiau marchnata ac arddangos, eisoes yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo taflenni'n rhai darluniadol yn unig. Lle bo modd, byddwn yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r dogfennau hyn ac yn eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Mae'r holl ddeunyddiau ysgrifennu a ddefnyddir yn ddwyieithog lle bo hynny'n ymarferol bosibl, a rhoddir ystyriaeth i ddwyieithrwydd pan fydd angen creu unrhyw ddeunyddiau newydd.

Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg

Rydym yn cydnabod bod cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o'n darpariaeth iaith Gymraeg yn allweddol i'w llwyddiant. O ganlyniad, bydd y Rheolwyr – o'r lefelau uchaf i lawr – yn gweithredu i hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Yn ogystal, byddwn yn penodi Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg i fonitro'n cynnydd wrth i ni roi ein Cynllun Gwella'r Iaith Gymraeg ar waith, ac i weithio gyda chyflogeion ar draws y sefydliad i sicrhau ei fod yn llwyddo.

Adroddiad

Bob blwyddyn, byddwn yn darparu adroddiad dwyieithog sy'n rhoi gwybodaeth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a'r Saesneg ar draws ein gwasanaethau, a gwybodaeth am y ganran o ran cynnydd neu leihad yn y defnydd o'r iaith Gymraeg o'r flwyddyn flaenorol.